

Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda



Ydy'ch plentyn wedi bod i'r ysbyty?

Yr hyn a ddywedoch chi wrthym am eich profiadau

Gorffennaf 2022



Fformatau hygyrch

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg hefyd.

Os hoffech i'r cyhoeddiad hwn mewn fformat a / neu iaith arall, cysylltwch â ni.

Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu gofynnwch am gopi drwy gysylltu â'n swyddfa.

Cynnwys

Ynglŷn â'r Cyngorau Iechyd Cymuned (CICau)	3
Cyflwyniad a Chefndir	6
Yr hyn a wnaethom	7
Gan bwy y clywsom?.....	7
Yr hyn a glywsom	8
Dysgu o'r hyn a glywsom	14
Argymhellion	15
Diolch.....	16
Adborth.....	17
Manylion cyswllt	18
Ymateb i'n hadroddiad oddiwrth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.....	19

Ynglŷn â'r Cyngorau Iechyd Cymuned (CICau)

Cyngorau Iechyd Cymuned yw corff gwarchod annibynnol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) o fewn Cymru. Mae CICau yn annog a chefnogi pobl i gael llais wrth ddylunio a darparu gwasanaethau'r GIG.

Mae CICau yn gweithio gyda'r GIG, cyrff arolygu a rheoleiddio. Mae CICau yn darparu cyswllt pwysig rhwng y rhai sy'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau'r GIG, y rhai sy'n ei archwilio a'i reoleiddio a'r rhai sy'n ei ddefnyddio.

Mae CICau yn clywed gan y cyhoedd mewn sawl ffordd wahanol. Cyn y pandemig coronafeirws, ymwelodd CICau â gwasanaethau'r GIG yn rheolaidd i glywed gan bobl dra'u bod yn cael gofal a thriniaeth. Clywodd CICau hefyd gan bobl mewn digwyddiadau cymunedol lleol, a thrwy gynrychiolwyr a grwpiau cymunedol.

Ers y pandemig coronafeirws, mae CICau wedi canolbwyntio ar ymgysylltu â phobl mewn gwahanol ffyrdd.

Mae hyn yn cynnwys arolygon, apiau, fideo-gynadledda a chyfryngau cymdeithasol i glywed gan bobl yn uniongyrchol am eu barn a'u profiadau o wasanaethau'r GIG yn ogystal â thrwy grwpiau cymunedol.

Mae 7 CIC yng Nghymru. Mae pob un yn cynrychioli llais "y claf a'r cyhoedd" mewn rhan wahanol o Gymru.



Cynnal ymweliadau rheolaidd â'r gwasanaethau iechyd er mwyn clywed gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth (a'r bobl sy'n darparu gofal) er mwyn dylanwadu ar y newidiadau all wneud gwahaniaeth mawr




Yn estyn allan at bobl o fewn cymunedau lleol i ddarparu gwybodaeth, a chasglu barn a phrofiadau o wasanaethau'r GIG. Mae CICau'n defnyddio'r wybodaeth hon i weld sut mae gwasanaethau'n perfformio ac i sicrhau bod y GIG yn gweithredu i wneud pethau'n well lle bo angen



Cymryd rhan gyda rheolwyr y gwasanaeth iechyd pan maen nhw'n meddwl am wneud newidiadau i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu fel bod pobl a chymunedau yn cael dweud eu dweud o'r dechrau



Mae'n darparu gwasanaeth eiriolaeth cwynion sydd am ddim, yn annibynnol ac yn gyfrinachol i helpu pobl i godi eu pryderon am ofal a thriniaeth y GIG.



Cyflwyniad a Chefndir

Mae'r CIC wedi bod yn ymwneud â gwasanaethau plant yn rheolaidd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rydyn ni wedi gofyn i bobl am eu profiadau ers i'r Bwrdd Iechyd wneud newidiadau yn 2014. Mae mwy o newidiadau wedi digwydd ers hynny ac mae mwy ar y gweill. Rydym yn gwybod bod heriau sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd yn anodd ac yn gymhleth. Mae heriau staffio i'w goresgyn, materion diogelwch cleifion i'w hystyried ac amrywiaeth o bryderon lleol yn y cyhoedd ynghylch gwasanaeth sy'n teimlo'n fwyfwy pell i lawer. Mae'r Bwrdd Iechyd yn edrych ar ddyfodol gwasanaethau plant unwaith eto a byddwn yn sicrhau bod llais y claf yn rhan o'r broses gynllunio.

Yn y gorffennol rydym wedi gwneud nifer o ymweliadau â lleoliadau menywod a phlant ers i'r gwasanaeth newid. Mae'r rhain wedi digwydd yn 2015, 2016, 2017 a 2018.

Mae'r ymweliadau hyn wedi ein helpu i ddeall profiadau teuluoedd a phlant, yr adroddwyd i'r bwrdd iechyd ac eraill, e.e., Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH).

Mae gwasanaethau menywod a phlant yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ni wrth i bobl barhau i boeni amdanyn nhw. Rydyn ni'n gwybod bod angen i rieni, gofalwyr a phlant ddefnyddio gwasanaethau yn ystod y pandemig gydag ysbytai dan bwysau aruthrol. Mae hefyd wedi arwain at newidiadau pellach dros dro yn ysbyty Llwynhelyg. Mae'r Uned Gofal Ambiwladol Pediatrig (PACU) wedi bod yn lleoliad gwerthfawr yn ysbyty Llwynhelyg er iddo gau yn y nos. Yn fwy diweddar fe gafodd ei ail bwrpasu ar ddechrau'r pandemig i helpu i ddelio gyda llif cleifion wrth i'r ysbyty orfod addasu i reolau rheoli haint llym.

Golygai hyn bod mwy o blant wedi gorfod teithio i Gaerfyrddin ar gyfer gofal pediatrig. Mae dyfodol gwasanaethau plant yn parhau i fod yn bwnc sy'n cael ei drafod gan y Bwrdd Iechyd.

O ganlyniad penderfynwyd cynnal arolwg er mwyn deall profiadau pobl. Roedden ni eisiau gwybod sut brofiad oedd cael gofal yn ystod y cyfnod anodd iawn yma, o wybod bod angen i hyn ddylanwadu ar y gofal a ddarparwyd nawr a chynllunio at y dyfodol.

Yr hyn a wnaethom

Yn y gorffennol rydym wedi canolbwyntio ar ymweld ag ardaloedd clinigol a siarad â theuluoedd wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, yn ystod y pandemig roedden ni'n teimlo bod y risgiau o ledaenu Covid mewn ysbytai yn rhy fawr i wneud hyn. Felly, defnyddiwyd dull arolwg a gyhoeddir drwy'r cyfryngau cymdeithasol a'n cysylltiadau â rhanddeiliaid. Fe wnaethon ni redeg yr arolwg yn ystod misoedd cynnar 2022 ac roedd gennym gyfradd ymateb iach o 109 o arolygon wedi'u cwblhau. Dyluniwyd y cwestiynau i fod yn syml, gofynnwyd i bobl ddweud ychydig o wybodaeth sylfaenol wrthym ynghylch pam y cyrchon nhw'r GIG, beth oedd yn dda am eu profiad, beth nad oedd yn dda ac am unrhyw farn arall o amgylch gofal y GIG a gafwyd.

Gan bwy y clywsom?

Clywsom yn bennaf gan rieni neu ofalwyr plant. Gydag ysbyty Glangwili yn darparu'r rhan fwyaf o ofal pediatrig doedden ni ddim yn synnu gweld bod mwyafrif yr ymatebion i'r arolwg (72) yn canolbwyntio ar brofiadau pobl yno.

Cawsom 31 o ymatebion arolwg o Lwynhelyg, yn ôl pob golwg yn canoli ar brofiadau yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Roedd 3 ymateb yn canolbwyntio ar Ysbyty'r Tywysog Philip.

Yr hyn a glywsom

Yn gyffredinol, roedd pobl yn bositif iawn am y ffordd yr oedd staff y GIG yn gofalu amdanynt. Mae hwn yn bwynt pwysig i'w wneud o ystyried bod staff y GIG wedi bod dan bwysau aruthrol am gyfnod hir.

"Roedd y staff yn gyfeillgar, yn gymwynasgar ac yn dda iawn gyda fy mab. Wedi gwneud iddo deimlo'n gartrefol".

"Roedd y ddynes a oedd yn rheoli yn hollol arbennig ac mor hyfryd i fy mab yn tawelu ei feddwl y byddai'n iawn

Roedd yn beth da ein bod yn gallu ymweld â'n hysbyty lleol a chael ein gweld mor gyflym er eu bod yn brin o staff".

"Roedd y nyrs wnaeth brysbennu fy merch yn hyfryd a dywedodd fy mod wedi gwneud y peth iawn wrth ddod â hi i mewn ac roedd hi'n amyneddgar iawn ac yn gyfeillgar gyda fy merch a minnau".

"Roedd awdiolegydd yn barod ar amser, doedden ni ddim wedi cael ein brysio, roedd hi'n dda iawn gyda fy mab ac yn siarad Cymraeg sef ei ddewis iaith".

Calonogol yw clywed bod cymaint o bobl yn teimlo bod y staff yn gyfeillgar ac yn barod i helpu. Bydd pob rhiant a gofalwr yn gwybod pa mor anodd y gall fod i gymryd plentyn sâl i mewn i leoliad ysbyty prysur, yn enwedig yn ystod pandemig byd-eang. Er i bryderon eraill godi yn ystod y prosiect hwn, mae'r CIC yn teimlo bod dull cynnes a gofalgar yn hollbwysig yn wyneb cymaint o broblemau eraill. Yn amlwg roedd hyn yn brofiadol gan y rhan fwyaf o bobl a gwblhaodd ein harolwg.

Mewn lleiafrif bach o ymatebion, fe glywon ni fod rhai yn teimlo bod staff yn anghwrtais neu'n llai gofalgar.

"Fe allai meddygon fod yn fwy ymwybodol eu bod yn delio â phlentyn sydd erioed wedi cael anaf nac ymweliad ysbyty o'r blaen."

"Roedd y ffordd y cefais fy nhrin a'm siarad â gan y nyrs yn ffiaidd. Doedd ganddo ddim empathi ac roedd yn anhygoel o anghwrtais a nawddoglyd. Rwy'n deall yn llwyr fod y staff wedi bod trwy gyfnod anhygoel o anodd ac efallai eu bod wedi cael eu tanbriso. Gallaf ddeall yn iawn pam fod pobl yn cynhyrfu cymaint ac yn rhwystredig os ydynt yn cael eu diwallu gyda'r math yma o agwedd ar gyrraedd yr ysbyty".

Er bod y math yma o bryderon yn llai cyffredin diolch byth, maen nhw'n bwysig i gydnabod. Roedd nifer o bobl yn cydnabod bod y staff o dan bwysau aruthrol.

"Mae'r staff sy'n gweithio yn edrych wedi blino'n lân. Fe'u rhuthrir oddi ar eu traed. Gweithio mor galed i roi eu cyfan a gwneud y gwaith maen nhw'n ei garu".

Fodd bynnag, dylai cleifion ddisgwyl gofal sy'n dosturiol ac empathig bob tro y byddan nhw'n mynd i ysbyty.

Yn ein harolwg, cododd tua thraean yr ymatebion fater cyfnodau hir o aros mewn lleoliadau ysbyty (neu mewn rhai achosion y tu allan i ysbytai mewn car). Rydym yn gwybod bod aros am amser hir i gael ei weld neu gael gwybod am y cam nesaf ar daith y claf yn anodd fel oedolyn ond yn llawer anoddach fel plentyn sâl ac yn gallu bod yn anodd iawn i'r person sy'n gofalu amdanynt.

Mae'r CIC yn deall bod y GIG, yn ystod y cyfnod pan oedd yn rhedeg ein harolwg, wedi profi problemau staffio mawr ac yn methu rhedeg ei ysbytai yn y ffordd y byddai fel arfer. Roedd hyn yn cyfyngu ar faint o bobl y gellid eu gweld ac yn golygu bod llawer o bobl yn aros am gyfnodau hir iawn. Ni ddaeth pawb a ymatebodd i'n harolwg profi arosiadau hir, ond roedd yn dal yn thema fawr.

"Roedd D ac A yn wallgof, wedi aros 10 awr am feddyg".

"Cymerodd dros awr i gyrraedd yno. Amser aros 9/10 awr. Anhrefn llwyr ond roedd angen llawdriniaeth frys".

"Dim ond yr amser y bu'n rhaid i ni aros ond roeddwn yn ei ddisgwyl gan fy mod yn gwybod bod y gwasanaethau wedi'u hystyngi."

"Mae gwneud i blentyn aros 3 awr mewn ambiwlans dim ond i fynd i PACU y plant yn gwbl hurt. Straen ofnadwy i fy mab sydd hefyd yn awtistig ac yn hollol ofnus o ysbytai ac ambiwlansys."

Mae'r CIC yn llwyr werthfawrogi bod yr amgylchiadau penodol a greodd arosiadau hir i bobl yn anodd iawn i'w hosgoi. Fodd bynnag, rydym yn dal i feddwl bod hyn yn dal i roi cyfle i ddysgu am brofiad cleifion wrth i bobl aros am ofal brys.

Roeddem hefyd yn poeni o glywed am yr amgylchedd yr oedd pobl yn ei adrodd pan oedd eu plentyn yn sâl neu wedi'i anafu.

"Nunlle i gael bwyd a diod trwy'r dydd. Nunlle i deulu/brodyr a chwiorydd fynd."

"Rhannu ystafell aros gydag oedolion, ers cyfnod Covid maen nhw wedi colli ystafell aros y plant mae'n debyg. Ar achlysur arall y bu'n rhaid i mi fynd ag ef i Glangwili yn ystod oriau mân roedd yna bobl yn feddw a chleifion gyda phroblemau cyffuriau yn yr un ardal."

Roedd rhai pobl hefyd yn teimlo nad oedd amgylcheddau ysbytai bob amser mor lân ag y dylen nhw fod.

"Doedd dim glanhau Covid pan oedd cleifion yn gadael yr ystafell aros a doedd y glendid ddim yn wych".

Unwaith yn rhagor mae'n cael ei dderbyn bod y pandemig a rheolau cysylltiedig rheoli heintiau yn golygu nad oedd ardaloedd aros yn ddelfrydol. Fodd bynnag, gyda phwysau parhaus mewn lleoliadau damweiniau ac achosion brys yn edrych fel realiti tymor hir, rydym yn teimlo bod yn rhaid i'r Bwrdd Iechyd edrych eto ar brofiadau'r claf, yn enwedig i'r rhai sydd â phlant ifanc.

Roedd amseroedd teithio yn nodwedd gyffredin arall ymhlith pryderon pobl. Yn nodweddiadol, dyma bwynt a godwyd gan drigolion Sir Benfro a oedd angen gyrru i Gaerfyrddin i gael gofal pediatrig er ein bod yn gwerthfawrogi y gall amser teithio fod yn broblem i amrywiaeth o bobl yn ardal y Bwrdd Iechyd. Gan gydnabod hyn, mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith bod teithiau hirach i rieni a gofalywr plant gwael yn gallu bod yn anghyfleus iawn ac yn anodd.

"Fe gymerodd 45 munud i yrru am 4yb a chael gwybod os oedd hi'n dechrau troi'n las yna i ffonio am ambiwlans. Dyw cymryd yr holl straen a'r cyfrifoldebau ar fy mhen fy hun gyda phlentyn sâl am 4yb ddim yn deg nac yn ddiogel".

Fe gyrhaeddwn ni am 3yp a chael ein rhyddhau am 4yb. Yna roedd disgwyl i mi yrru adref 1 awr a 20 munud arall. Roedd fy mhartner yn syrthio i gysgu wrth yr olwyn, ro'n i jest yn crio gyda'r ffenestri ar agor yn ei gadw'n effro ac yn meddwl pa mor beryglus oedd hi ein bod ni hyd yn oed ar y ffordd ar ôl diwrnod mor ddirdynnol".

Mae rhieni a gofalwyr wedi bod yn amlygu anghyfleustra a straen y teithiau hyn i'r CIC ers y newidiadau i wasanaeth yn 2014. Mae'n bwysig bod cynlluniau tymor byr a mwy hirdymor ar gyfer gwasanaethau'r dyfodol yn cymryd hyn i ystyriaeth.

Roedd rhai pobl hefyd yn teimlo eu bod yn teithio ymhell, nid oherwydd bod angen gofal arbenigol ond oherwydd nad oedd cymorth sylfaenol ar gael yn lleol.

"Fe aethon ni i D ac A am nad oedd y meddyg teulu'n gallu gweld fy mhlentyn 5 oed (prynhawn Dydd Gwener) ond roedd hi'n pryderu yr oedd hi'n dadhydradu (chwydu). Rydyn ni'n byw 10 munud o'n MT, 20 munud o Llwynhelyg ac awr o Glangwili. Roedd fy mhlentyn wedi bod yn chwydu bob 20 munud am tua 16 awr, a'r peth olaf oedd ei angen oedd taith rownd dwy awr ar gyfer asesiad nad oedd angen ei wneud yn yr ysbyty. Roedden ni'n ddigon ffodus i allu fforddio'r tanwydd, ac i allu gollwng fy mhlentyn iau gyda'i nain a'i thaid, ond i deuluoedd eraill efallai y byddai'r daith i'r adran damweiniau ac achosion brys wedi effeithio ar eu gallu i fforddio bwyd yr wythnos nesaf."

Nid yw'r CIC yn gallu llunio barn glinigol am achosion unigol ac mae'n anodd cadarnhau a oedd angen taith ysbyty ai peidio, ond mae'n amlwg yn bwysig sicrhau bod nod y Bwrdd Iechyd o ddarparu "gofal yn agosach at adref" yn cael ei wireddu.

Dysgu o'r hyn a glywsom

Mae clywed gan deuluoedd am eu profiad wedi bod o gymorth mawr. Roedd rhai themâu clir o fewn yr ymatebion a gawsom. Yn gyntaf, roedd canmoliaeth i staff bron â bod yn gyfun. Mae'n bwysig ein bod yn tynnu sylw at hyn yn glir ac yn blaen.

Gan gydnabod diolchgarwch a pharch pobl a rannodd eu profiadau gyda ni, a'r adborth cadarnhaol, roedd hefyd yn amlwg fod llawer o bobl wedi cael profiad anodd a rhwystredig. Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Iechyd drwy gydol cyfnod y pandemig ac yn deall yr heriau enfawr a roddodd hyn ar system y GIG. Roedd problemau staffio cyson, lefelau uchel o alw a rheolau anodd o ran sut oedd gofod yn cael ei ddefnyddio yn amlwg wedi effeithio ar brofiad pobl, er heb ymdrechion staff a rheolwyr rheng flaen fe allai fod wedi bod yn llawer gwaeth.

Mae'n bwysig nad yw'r cyfnod hwn yn cael ei weld ar wahân gan ein bod yn teimlo bod gwersi i'w dysgu. Pan fydd angen i blentyn fynd i'r ysbyty daw'n brawf clir o sut y mae system brysur yn addasu i fregusrwydd, breuder a phryder. Mae canlyniadau'r arolwg hwn yn dangos darlun cymysg o gyflawni a *pheidio* â chyflawni'r her honno, hyd yn oed os oedd rhieni neu ofalwyr ar y cyfan yn ymddangos yn hapus gyda'r canlyniad clinigol.

Argymhellion

01

I'r Bwrdd Iechyd ddiolch i staff sy'n ymwneud â gofal brys ac argyfwng plant am eu hagwedd ofalgar a chymwynasgar tuag at deuluoedd yn ystod cyfnod lle'r oedd pawb dan gymaint o bwysau.

02

I'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod yn casglu profiadau cleifion gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag agweddau staff er mwyn helpu ei ddysgu sefydliadol ei hun a gwella'n barhaus.

03

I'r Bwrdd Iechyd edrych ar yr ardaloedd aros mewn lleoliadau gofal brys ac argyfwng, gan ganolbwyntio ar blant a'r rheiny sydd fwyaf bregus. I gynnwys bwyd/diod, gwybodaeth, ardaloedd cyfeillgar i blant ac ati.

04

Er mwyn i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod teithio'n parhau i fod yn ystyriaeth allweddol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau yn y tymor byr a'r tymor hwy.

Diolch

Diolchwn i bawb a gymerodd yr amser i rannu eu barn a'u profiadau gyda ni am eu gwasanaethau iechyd a gofal, a rhannu eu syniadau.


Rydyn ni'n gobeithio bod yr adborth y mae pobl wedi cymryd amser i rannu dylanwadau ar wasanaethau gofal iechyd i gydnabod a gwerthfawrogi'r hyn maen nhw'n ei wneud yn dda - a gweithredu lle mae angen iddyn nhw mor gyflym ag y gallan nhw i wneud pethau'n well.

Adborth

Byddem wrth ein boddau'n clywed beth rydych chi'n ei feddwl am y cyhoeddiad hwn, ac unrhyw awgrymiadau am sut y gallem fod wedi ei wella, fel y gallwn ddefnyddio hyn i wneud i'n dyfodol weithio'n well.



Manylion cyswilt



Cyngor Iechyd Cymuned Hywel
Dda, Swît 5, Llawr 1af,
Tŷ Myrddin, Caerfyrddin, SA31 1LP



01646 697610



hyweldda@waleschc.org.uk



www.hywelddachc.cymru



@HywelDdaCHC

Ymateb i'n hadroddiad oddiwrth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board

YMATEB BWRDD IECHYD PRIFYSGOL HYWEL DDA I ADRODDIAD CYNGOR IECHYD CYMUNED HYWEL DDA:-

“Yw eich plentyn wedi bod yn yr ysbyty?”

ARGYMHELLIAD 1

Bod y Bwrdd Iechyd yn diolch i'r staff sy'n ymwneud â gofal brys a gofal argyfwng i blant am ymdrin â theuluoedd mewn modd mor ofalgar ac am eu parodrwydd i'w helpu yn ystod cyfnod o bwysau mor fawr.

Mae'r Rheolwr Cyffredinol Gwasanaethau Menywod a Phlant ynghyd â'r timau gwasanaeth a'r timau rheoli clinigol, wedi ysgrifennu at y staff ym maes gwasanaethau plant i ddiolch iddynt am eu holl waith caled, eu hymrwymiad a'u hymroddiad i'r gwasanaeth. O safbwynt holiaduron Cymru Gyfan, mae gan y tîm fynediad llawn i'r ymatebion gan blant, rhieni a gofalwyr. Caiff y rhain eu darparu'n unigol ac yn rhan o friff y tîm. Mae'r rhain hefyd yn cael eu hadolygu'n helaeth yn rhan o'r adolygiad eang o wasanaethau pediatrig, y disgwylir i'w adroddiad gael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn nes ymlaen y mis hwn.

Mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn anarferol tu hwnt, ac mae'r tîm cyfan wedi gweithio'n eithriadol o galed i ddarparu gofal o safon uchel yn gyson a diwallu anghenion plant, pobl ifanc a'u teuluoedd ar draws ein meysydd gwasanaeth.

Bydd yr adroddiad hwn gan y Cyngor Iechyd Cymuned yn cael ei drafod a'i rannu â'r timau pediatrig drwy adolygiad yng Nghyfarfod Ansawdd a Diogelwch y Gyfarwyddiaeth.

ARGYMHELLIAD 2

Bod y Bwrdd lechyd yn sicrhau ei fod yn casglu gwybodaeth am brofiadau cleifion, gan gynnwys y profiadau sy'n ymwneud ag agweddau'r staff, er mwyn helpu ei waith dysgu ei hun fel sefydliad ac er mwyn gwella'n barhaus.

Yn yr Adran Achosion Brys, mae'r Tîm Diwylliant a'r Gweithlu wedi bod yn gwneud llawer o waith gyda staff yr Adran ac wedi buddsoddi llawer yno hefyd. Cydnabyddir y pwysau a'r heriau sylweddol y mae staff yr Adran Achosion Brys yn eu hwynebu, ond maent hefyd yn gweithio'n unol â'r safonau uchaf a bydd gwerthoedd y Bwrdd lechyd bob amser yn ffocws ac yn flaenoriaeth i ni. Byddai yna ymgais i ymddiheuro mewn achosion lle nad yw hynny'n digwydd. Er mwyn hybu cydnerthedd y tîm ac adeiladu arno, rydym yn cynnig 'mannau gwrando' gyda'r tîm Diwylliant yn rheolaidd er mwyn i ni allu helpu i feithrin y staff yn broffesiynol ac yn bersonol i weithio bob amser yn unol â'r gwerthoedd a bennwyd gan y Bwrdd lechyd. Rydym yn casglu gwybodaeth yn rheolaidd am brofiad y claf, ac rydym yn ymwybodol bod profiad y claf ar hyn o bryd yn gynyddol wael. O ganlyniad, rydym wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i fynd i'r afael â'r themâu hyn sy'n codi dro ar ôl tro.

Ym maes gwasanaethau plant, rydym yn monitro adborth gan blant o oedran priodol fel mater o drefn ac yn monitro holiaduron rhieni a ffurflenni adborth. Mae tystiolaeth ynghlwm wrth gwestiynau sy'n ymwneud â'r staff nyrsio a'r modd y caiff gofal ei ddarparu i'r plant, a cheir cyfleoedd i ychwanegu testun rhydd er mwyn darparu naratif mwy personol. Caiff yr ymatebion eu rhannu'n rheolaidd â'r timau fel bod modd rhoi sylw cyn gynted ag sy'n bosibl i'r problemau a nodir gan themâu a thueddiadau. At hynny, caiff y ffurflenni adborth eu hadolygu bob wythnos a chaiff adolygiad tîm ward ei gynnal bob mis, gyda chymorth byrddau 'fe ddywedoch chi, fe wnaethom ni'.

Rydym wrthi'n treialu tudalen adborth ar y wefan er mwyn ymateb i'r holl deuluoedd a'r holl blant sydd wedi cyfrannu i adborth, er mwyn i ni sôn am y newidiadau a wnaed.

Yn rhan o fuddsoddiad y Bwrdd lechyd yn Rhaglen Prifysgol Warwig, Rhoi Dealltwriaeth o Ymddygiad ar Waith: Ar gyfer y Sawl sy'n Gwneud Newidiadau (*Behavioral Insights in Practice: For the Change Makers*), mae'r Uned Triniaethau Dydd Bediatrig yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili wedi'i dewis gan un o'r timau prosiect i weld sut y gallai fod yn bosibl i staff yr uned gynorthwyo a gwella profiad y claf yn wahanol, gan berchenogi adborth a phrofiad y claf yn lleol. Mae'r prosiect hwn y mae'r tîm wedi'i alw yn "GEMS" (ac a noddir gan y Cyfarwyddwr Cyllid) wedi'i lunio, ymhlith pethau eraill, i werthuso barn y rhiant am amseroedd aros ac ardaloedd aros. Dan arweiniad staff yr Uned Triniaethau Dydd Bediatrig, caiff adborth penodol ei adolygu bob wythnos ar y cyd â thîm y prosiect, gyda'r bwriad o weithredu ar argymhellion a chyflwyno gwelliannau. Bydd tîm y prosiect yn cyflwyno'r canfyddiadau i'r Bwrdd ym mis Rhagfyr.

Mae'r gwasanaeth yn parhau i weithio'n galed i ymgysylltu â theuluoedd a phlant ar y ward yn rhan o'n gwaith ymgysylltu a'n proses o gael adborth ac yn rhan o 'fe ddywedoch chi, fe wnaethom ni'.

ARGYMHELLIAD 3

Bod y Bwrdd lechyd yn edrych ar yr ardaloedd aros mewn lleoliadau gofal brys a gofal argyfwng, gan ganolbwyntio ar blant a'r sawl sydd fwyaf agored i niwed. Dylai ystyried bwyd/diod, gwybodaeth, ardaloedd addas i blant, ac ati.

Yn yr Adran Achosion Brys, mae grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i sefydlu er mwyn ymateb i'r themâu sy'n codi dro ar ôl tro o gwynion ac adborth. Bydd y grŵp yn adolygu pob Adran Achosion Brys yn y Bwrdd lechyd er mwyn penderfynu pa gamau gweithredu a/neu newidiadau rhesymol y gellir eu cyflwyno er mwyn gwella'r amgylchedd a'r profiad i'n defnyddwyr gwasanaeth. Yn rhan o'r gwaith hwnnw, byddwn yn cynnwys anghenion plant er mwyn ceisio gwella'r amgylchedd iddyn nhw a'u teuluoedd.

Ym maes gwasanaethau plant, rydym yn sicrhau bod pob plentyn a phob person ifanc yn cael bwyd a diod tra byddant yn disgwyl am asesiad ac adolygiad. Rydym yn sylweddoli bod yn rhaid peidio â rhoi bwyd a diod i rai plant sy'n dod i'r ysbyty, ond nid oes unrhyw gwynion wedi dod i law yn ein hardaloedd o ganlyniad i hynny. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r pryder hwn a godwyd yn yr adborth i ni fel Bwrdd lechyd o'r Adran Achosion Brys, ac mae wedi'i rannu â'r timau ac â'n grŵp maeth a hydradu.

Yn ystod yr ymateb i COVID-19, cydnabuwyd bod yn rhaid i'r Uned Triniaethau Dydd Bediatrig a Ward Cilgerran gau'r ystafell i rieni oherwydd cyfyngiadau COVID. Fodd bynnag, parhawyd i ddarparu pob pryd bwyd a diodydd bob amser i'r rhiant a oedd yn aros yn yr ysbyty gyda'r plentyn. At hynny, nid oedd modd i'r rhieni a oedd yn aros yn yr ysbyty gyda'u plant gael mynediad i'r ffreutur oherwydd y cyfyngiadau yn yr ardal fwyta ond mae'r tîm arlwyo, gwasanaethau gwesty'r wardiau a staff y wardiau wedi gweithio'n galed i sicrhau bod pob rhiant a phob plentyn wedi cael digon o fwyd a diod.

ARGYMHELLIAD 4

Bod y Bwrdd lechyd yn sicrhau bod teithio'n dal yn ystyriaeth allweddol wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau yn y tymor byr a'r tymor hwy.

Hoffem eich sicrhau bod gwaith yn parhau i fynd rhagddo er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd am deithio, ac mae'n fater sy'n dal i gael ei adolygu yn rhan o'r ffocws presennol ar wasanaethau pediatrig, fel y disgrifir uchod. Caiff unrhyw blant y mae angen iddynt gael eu cludo adref o'r ysbyty mewn cerbydau nad ydynt yn gerbydau brys eu trin yn gyfartal ar draws y Bwrdd lechyd, ac rydym yn ystyried pob achos yn unigol os oes angen cymorth ar rywun. Mae gan y Bwrdd lechyd gcontractau â chwmnïau tacsis lleol ym mhob sir, ac yn enwedig ar gyfer achosion o ryddhau cleifion o'r ysbyty lle cafodd cleifion eu cludo i Ysbyty Cyffredinol Glangwili mewn ambiwlans; mae'n bosibl i'r nyrsys ar wardiau gael gafael ar gwmni tacsis sydd dan gcontract (drwy'r timau rheoli safle) a threfnu cludiant adref os na ellir trefnu cludiant amgen.

Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda